

Cydymdeimlad, Cofion a Chyfarchion

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Beti Williams (Hiraethog) a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl, Mrs Margaret Jones. Cyflwynwn y teulu cyfan i ofal a thangnefedd yr Arglwydd a gweddiwn y bydd Duw yn cysgodi drostynt yn eu galar a'u hiraeth. Parhawn i gofio am eraill o'n plith sy'n galaru am anwyliaid hefyd. Hyderwn eu bod hwythau yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal yn eu hangen.

Nid yw Selwyn Davies (Nantglyn) wedi bod yn dda ei iechyd yn ddiweddar ac mae wedi bod yn cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd dros y pythefnos ddiwethaf. Anfonwn ein cofion ato gan weddio ei fod yn adnabod daioni Duw yn ei amgylchynu. Parhawn i gofio hefyd am Richard M. Jones (Cefn Berain) sy'n cael gofal yn yr Inffirmari, a hefyd Iorwen Roberts (Llansannan) sy'n disgwyl cael ei symud i'r Inffirmari wrth i'r rhifyn hwn gael ei baratoi. Rydym yn falch iawn o glywed bod Llinos Hughes (Cefn Berain) yn cael dod adref wedi cyfnod o rai misoedd yn yr ysbyty. Diolchwn am bob gofal a gafodd tra yno, ac am ofal ac ymroddiad y teulu hefyd. Gweddiwn y bydd y trefniadau gofal pellach yn profi'n fendithiol i Llinos ac i'r teulu. Balch ydym hefyd fod Elwyn Tudor (Henllan) wedi cael dod adref o'r ysbyty. Hyderwn y bydd y gofal da y mae yntau'n ei dderbyn yn arwain at wellhad buan. Cyflwynwn y cleifion hyn, yn ogystal â'r rhai hynny sy'n derbyn gwahanol driniaethau neu'n aros triniaethau, a phawb arall sydd heb fod yn dda y dyddiau hyn, i ofal tyner ein Duw.

Llongyfarchiadau i Gareth a Katie Jones (Henllan) ar enedigaeth merch, Saran Lois, chwaer fach i Dion. Diolchwn i Dduw am y rhodd arbennig yma eto, a chyflwynwn y teulu i'w ofal.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Elinor a Huw Davies (Llanfair) ar achlysur dathlu 50 mlynedd o fywyd priodasol.

Coleg y Bala

- **Clwb Hydref (i blant 8-11 oed)** yng Ngholeg y Bala. Bydd y ddeuddydd yn cychwyn am 9:00 bore Llun, Hydref 31^{ain} ac yn gorffen am 6:00 yr hwyr dydd Mawrth, Tachwedd 1^{af}. Bydd yna sialensau tîm, crefft, nofio, gemau gwirion, disgo tawel, parti a chyfle i glywed mwy am Iesu. Archebwch lle i'ch plentyn heddiw drwy lenwi'r ffurflen yma: <https://forms.gle/Qr1ra3Xv2Lq2yoS5A>
- **Cwrs leuencid (oed uwchradd: bl.7-10)** yng Ngholeg y Bala ar 4^{ydd} – 6^{ed} o Dachwedd (penwythnos olaf hanner tymor). Cost: £66. Archebwch le heddiw: <https://forms.gle/HhRPPeS9myXAX5G69>

(Cofiwch mai hanner y pris fydd y gost i'r ail neu drydydd plentyn o'r un teulu, a bod Eglwysi Bro Aled yn cynnig £10 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynychu. Cysylltwch â'r Coleg os oes gennych unrhyw gwestiwn: 01678 520565 / colegybala@ebcpcw.cymru.)

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 16 Hydref 2022

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Yr wythnos ddiwethaf darllenais erthygl ddi-ddorol oedd yn cynnig cyngor ar sut i leihau'r defnydd o egni mewn cartrefi. Roedd nifer o'r awgrymiadau'n ddigon cyfarwydd, fel gostwng fymryn ar dymheredd y thermostat gwres canolog, neu wneud yn siŵr fod ein bylbiau yn fwy effeithiol. Ond fe gefais fy synnu gan un awgrym penodol, sef treulio llai o amser yn y gawod! Honnodd yr erthygl (ar wefan y BBC) y byddai cwtogi amser cawod o 8 i 4 munud yn arbed hyd at £70 y flwyddyn i'r rhai sy'n cymryd o leiaf 5 cawod yr wythnos. Rwyf wedi clywed am bobl yn mwynhau bath hamddenol er mwyn ymlacio, ond ydi hynny'n wir am gawodydd hefyd? Ai'r awgrym felly oedd bod angen i ni lanhau llai ar ein cyrff er mwyn arbed arian?!

Gwnaeth hyn i mi gofio am ddyn o'r enw Naaman y mae'r hanes amdano wedi'i gofnodi yn 2 Brenhinoedd 5. Pennaeth byddin Syria oedd Naaman, dyn pwysig a gafodd ei daro â'r gwahanglwyf – afiechyd poenus a olygai bod dioddefwyr yn gorfod byw ar wahân i weddill cymdeithas. Mae'n amlwg bod Naaman wedi cyrraedd pen ei dennyn oherwydd derbyniodd gyngor gan ferch gaeth o Israel (gelynyon Syria) i fynd at Eliseus y proffwyd i geisio gwellhâd. Teithiodd gyda'i feirch, ei gerbydau, a llwyth o aur ac arian i wneud yn siŵr y byddai pawb yn gwybod mai gŵr o statws uchel ydoedd. Ond fe'i siomwyd yn arw gan ymateb Eliseus. Yn hytrach na seremoni llawn rhwysg i ddangos parch ac anrhydedd, neges ddi-nod a gafodd gan Eliseus yn ei gynghori i ymolchi saith gwaith yn afon loddonen. Yn ôl 2 Brenhinoedd 5:11 Beibl.net, 'dyma Naaman yn gwylltio ac yn mynd i ffwrdd.' Gwrthododd ffordd Duw o'i wella oherwydd ei falchder – doedd o ddim am iselhau ei hun y ffordd yma er mor druenus oedd ei gyflwr. Ond wedi ychydig o berswâd, 'dyma fe'n mynd ac ymdrochi saith gwaith yn afon loddonen fel roedd y proffwyd wedi dweud. A dyma'i groen yn dod yn lân fel croen plentyn bach.' (2 Brenhinoedd 5:14)

Yn yr hanes hwn cawn ddarlun arbennig o barodrwydd yr Arglwydd i iacháu a rhybudd rhag i ni wrthod gras Duw gan nad yw'n cyd-fynd â'n disgwyliaid ni. Nid peth hawdd yw syrthio ar ein bai a gofyn am faddeuant, ond wrth i ni droi mewn ffydd at Iesu Grist, cawn dderbyn cymaint yn fwy nag yr ydym yn ei haeddu: 'Os cyffeswn ein pechodau, y mae ef yn ffyddlon ac yn gyfiawn, ac felly fe faddeua inni ein pechodau, a'n glanhau o bob anghyfiawnder.' (1 Ioan 1:9)



Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Hydref 16^{eg}

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad Mr Celfyn Williams. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa Thema yn Henllan** am 9:30.
- **Gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghefn Berain** yng nghwmni'r bobl ifanc ac anerchiad gan Iestyn ac Ann Jones-Evans am 10:00.
- **Cyfarfod Diolch a chinio cynnil yn Llanefydd** yng nghwmni Huw Evans am 11:00.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn** am 2:00 y prynhawn o dan arweiniad Rhodri.
- **Oedfa'r Fro yng Nghefn Meiriadog** am 6:00 yr hwyr gyda Huw Tan y Graig yn arwain a Rhodri yn pregethu.

Dydd Mawrth, Hydref 18^{fed}

- **Cyfarfod Gweddi 'Gwreiddiau'** am 7:00 yr hwyr ar Zoom. (I ymuno, ewch i dudalen flaen www.eglwysibroaled.com a chlicio ar y llun 'Cyfarfod Gweddi'.)

Dydd Iau, Hydref 20^{fed}

- **Hwyl Pnawn Iau** (oedran derbyn – Bl.6) yn Festri Llansannan o 3:15–4:30 o dan ofal Rhodri a Gwenno a gweithwyr Coleg y Bala. (Byddant yn nôl y plant o'r ysgol ac yn cerdded i'r Festri.) Os nad ydych wedi cofrestru yn barod, rhwch eich enwau i Gwenno (07833 138515), os gwelwch yn dda.
- **Oedfa Diolchgarwch Capel Groes** am 7:00 yr hwyr gyda'r Parch. Owain Davies yn pregethu.

Dydd Gwener, Hydref 21^{ain}

- **Cymdeithas Llansannan** yn cyfarfod yn y Festri am 7:30 yr hwyr pryd y ceir noson yng nghwmni'r Cynghorydd Trystan Lewis a'r teulu. Croeso i bawb.

Dydd Gwener, Hydref 21^{ain} – Dydd Sadwrn, Hydref 22^{ain}

- **'Teulu'** – Penwythnos yng Ngholeg y Bala i deuluoedd sy'n mabwysiadu a maethu. Cyfle i ymlacio, cymdeithasu, rhannu profiadau ac edrych ar Air Duw yng nghwmni Arfon Jones. Bydd y penwythnos yn cychwyn gyda swper nos Wener ac yn gorffen ar ôl swper nos Sadwrn. Bydd darpariaeth lawn i blant a phobl ifanc o bob oed. Y gost fydd: Oedolyn: £45 Plentyn: £20; ail neu drydydd plentyn: £10 (plant dan 5 oed am ddim). Mae'r gost yn cynnwys swper nos Wener, gwely a brecwast, cinio a swper dydd Sadwrn. Llenwch y ffurflen yma i gofrestru: <https://forms.gle/JwaHsiqhsGb5Y72k8>.

Dydd Sul, Hydref 23^{ain}

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yng Nghefn Meiriadog** (sylwch ar y lleoliad) am 11:00 o dan arweiniad Rhodri. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa i'r Daith (Cefn Berain, Llanefydd, Henllan a Groes) yng Nghefn Berain** am 10:30 o dan arweiniad Mr Gwydion Lewis.
- **Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog** am 2:00.
- **'Gwreiddiau'** – Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Andras Iago (07778 511672).

Dydd Mawrth, Hydref 25^{ain}

- **Cyfarfod Gweddi 'Gwreiddiau'** am 7:00 yr hwyr ar Zoom. (I ymuno, ewch i dudalen flaen www.eglwysibroaled.com a chlicio ar y llun 'Cyfarfod Gweddi'.)

Dydd Iau, Hydref 27^{ain}

- **Hwyl Pnawn Iau** (oedran derbyn – Bl.6) yn Festri Llansannan o 3:15–4:30 o dan ofal Rhodri a Gwenno a gweithwyr Coleg y Bala. Os nad ydych wedi cofrestru yn barod, rhwch eich enwau i Gwenno (07833 138515), os gwelwch yn dda.
- **Gwasanaeth Diolchgarwch Cefn Meiriadog** am 7:00 yr hwyr gyda'r Parch. Owain Davies yn pregethu. Croeso cynnes i bawb. Yn dilyn y gwasanaeth, bydd cyfle i gymdeithasu dros banded.

Dydd Sul, Hydref 30^{ain}

- **Oedfa i'r Daith (Cefn Meiriadog, Llanfair a Llansannan) yng Nghefn Meiriadog** am 10:30 o dan arweiniad Mr Joseff Edwards. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 2:00.
- **Oedfa yn Henllan** am 9:30 ac **yn Llanefydd** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Hywel Meredydd. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llanefydd a'r Ysgol Sul yn Henllan am 10:30.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn** am 2:00 y prynhawn o dan arweiniad y Parch. John Robinson.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (26^{ain}), os gwelwch yn dda.